# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 3 Mawrth 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, D.M. Cundy, I.W. Davies, J.A. Davies, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, J.P. Jenkins, C. Jones, H.I. Jones, K. Madge, B.D.J. Phillips, G.B. Thomas a J.E. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio]
G. Morgan, Technegydd Cynorthwyol (Cyswllt Cynllunio)
H. Rice, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth)
G. Glenister, Swyddog Rheoli Datblygu
P. Roberts, Swyddog Rheoli Datblygu
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
A. Eynon, Prif Gyfieithydd
M. Withey, Swyddog Cefnogi Aelodau
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod - 10.00 yb - 11.25 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd M.J.A. Lewis.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd/ Swyddog | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Cyng. C. Jones | 3: W/37254 - Cais cynllunio i godi adeilad â gwelyau gwellt ar gyfer stoc ifanc, adeilad ar gyfer geni stoc, clampiau silwair, mannau concrid ar y buarth a phwll wedi'i ailbroffilio (sy'n rhannol ôl-weithredol), Fferm Wernolau, Llangynog, Caerfyrddin, SA37254 5BN | Mae'n gweithio gyda grŵp sy'n ceisio cysylltu'r gymuned â'r fferm. |

| Y Cynghorydd/ Swyddog | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| H.Rice - Uwch-swyddog Rheoli Datblygu | 3: PL/03083 - Addasu hen adeilad ysgol yn breswylfa a chodi 20 o dai fforddiadwy ar dir yr hen ysgol, gan gynnwys yr holl waith cysylltiedig yn hen Ysgol Coedmor, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8ET | Diddordeb personol nad oedd yn rhagfarnol - mae ffrind agos yn wrthwynebydd sy'n byw yn gyfagos i'r safle'r cais. |

**3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**3.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **W/37254** | **Cais cynllunio i godi adeilad â gwelyau gwellt ar gyfer stoc ifanc, adeilad ar gyfer geni stoc, clampiau silwair, mannau concrid ar y buarth a phwll wedi'i ailbroffilio (sy'n rhannol ôl-weithredol), Fferm Wernolau, Llangynog, Caerfyrddin, SA33 5BN**<br><br>(NODER: Roedd y Cynghorydd C. Jones wedi datgan buddiant yn y cais hwn yn gynharach; ailddatganodd y buddiant hwnnw a gadawodd y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei hystyried). |
| **PL/01316** | **Amrywio Amod rhif 2 cais E/35763 (Caniatâd Materion a Gadwyd yn Ôl ar gyfer 2 annedd a roddwyd ar 28 Medi 2017, yn unol â chaniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer E/30288 a roddwyd ar 9 Gorffennaf 2014) i ganiatáu cynlluniau diwygiedig o ran graddfa is i'r annedd yn Llain 1, ail-leoli'r annedd ar Lain 2 gyda threfniant parcio diwygiedig a darparu wal derfyn yn y de-ddwyrain a thriniaethau ar Leiniau 1 a 2 yn Nhregarth, Square & Compass, Llangadog, SA19 9ND** |

**3.2 PENDERFYNWYD y dylid gohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn gallu cynnal asesiad pellach o ran draenio dŵr brwnt i fodloni gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru:**

| | |
|---|---|
| **PL/03083** | **Addasu hen adeilad ysgol yn breswylfa a chodi 20 o dai fforddiadwy ar dir yr hen ysgol, gan gynnwys yr holl waith cysylltiedig yn hen Ysgol Coedmor, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8ET**<br><br>(NODER: Roedd H. Rice (Uwch-swyddog Rheoli Datblygu) wedi datgan buddiant yn y cais hwn yn gynharach; ailddatganodd y |

| | |
|---|---|
| | buddiant hwnnw a gadawodd y cyfarfod tra oedd yr eitem yn cael ei hystyried).<br><br>Roedd Mr Dylan Lewis a Ms Sian Lloyd Roberts (gwrthwynebwyr) a Mr Geraint Roberts (asiant) yn bresennol yn ystod ystyriaeth o'r cais ond ni chawsant gyfle i siarad gan fod y cais wedi cael ei ohirio. |

**3.3 S/34402 - Dymchwel hen Ysgol Copperworks a datblygu hyd at 9 o gartrefi newydd ar safle hen Ysgol Babanod Copperworks, ar dir yn Nheras Morlan, Porth Tywyn, SA16 0ND**

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y cais wedi'i **dynnu'n ôl** gan yr ymgeisydd (sef Cyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn).

Mynegodd y Cadeirydd ei siom o ran y modd yr oedd yr ymgeisydd wedi ymddwyn yn y mater hwn. Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi penderfynu cymeradwyo'r cais yn 2017, yn amodol ar yr amodau, a chwblhau cytundeb Adran 106. Ers hynny, roedd y Gwasanaeth Cynllunio a'r Gwasanaeth Cyfreithiol wedi ceisio cwblhau cytundeb Adran 106, ond hynny heb unrhyw gynnydd gan yr ymgeisydd, yr asiant na'i gyfreithwyr.

Mynegodd y Pwyllgor siom mai dim ond ar ôl cyhoeddi'r agenda y rhoddwyd gwybod i'r Awdurdod bod y safle bellach wedi'i werthu ac roedd hyn wedi gwastraffu amser swyddogion ac adnoddau cyhoeddus.

## 4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 3YDD CHWEFROR, 2022

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 3 Chwefror, 2022, gan eu bod yn gywir.**

_________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]